O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 1300 (Cy. 217)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pont Abraham i Landeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2024

Gwnaed	*9 Rhagfyr 2024*
Yn dod i rym	*15 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pont Abraham i Landeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Rhagfyr 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 15 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Rhagfyr 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 280 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ochr ddwyreiniol Cylchfan Pont Abraham hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Tŷ-croes.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol Cilyrychen hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Derwydd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol Derwydd hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Ffair-fach.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 280 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Tŷ-croes hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol Cilyrychen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Derwydd hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol Derwydd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol Ffair-fach hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Llandeilo.